

P-04-322 Galw am ryddhau gafael Cadw ar eglwysi yng Nghymru

Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i bwysu ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i mewn i ran Cadw yn y broses o roi caniatâd cynllunio i adeiladau rhestredig er mwyn gwneud gwaith addasu i eglwysi. Mae hyn yn rhwystro cynulleidfaoedd gweithgar a hyfyw rhag defnyddio adeiladau rhestredig yng Nghymru a, thrwy hynny, cânt eu cadw mewn cyflwr o inertia pensaernïol: nid ydynt yn gallu elwa ar ddatblygiadau modern mewn deunyddiau adeiladu, ac mae'n anodd i eglwysi wneud y newidiadau sy'n angenrheidiol er mwyn iddynt wasanaethau'r genhedlaeth nesaf a'r gymuned leol.

Cefndir

Cynigwyd y ddeiseb hon gan Graham John, a chasglwyd 147 o lofnodion.